# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Breaksea**

**Cartref Preswyl Breaksea**
**Y Sgwâr**
**Porthcawl**
**CF36 3BW**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Breaksea

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Breaksea Residential Homes Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth da gan dîm cyfeillgar o staff, sy'n gallu rhagweld eu hanghenion. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae cydgysylltydd gweithgareddau yn gweithio yn y cartref ddeuddydd yr wythnos; fodd bynnag, mae'r gweithwyr gofal yn ei chael hi'n anodd treulio amser ystyrlon yn ymgysylltu â'r bobl o ddydd i ddydd am fod anghenion cynyddol rhai pobl wedi ychwanegu at eu llwyth gwaith. Caiff y cynlluniau personol a'r asesiadau risg eu cwblhau â gwybodaeth berthnasol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol pan fo angen.

Mae diogelwch tân yn y cartref wedi gwella, ac mae cynnydd wedi'i wneud o ran trefnu a storio eitemau. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach i sicrhau bod y bobl yn cadw'n gyson ddiogel yn eu hamgylchedd. Mae'r gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant addas ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr yn goruchwylio'r digwyddiadau yn y gwasanaeth. Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ymweliadau monitro yn ôl yr angen.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau am eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r gweithwyr gofal yn dechrau sgyrsiau â'r bobl ond gwnaethant ddweud wrthym y byddai'n well ganddynt gael mwy o amser i ymgysylltu â'r bobl mewn ffordd fwy ystyrlon. Rhoddodd y bobl adborth da i ni am y gofal y maent yn ei dderbyn. Gwnaethant ddweud wrthym: *"the staff all love me, they will do anything to help me", "it's good here, I like it"*. Mae'r bobl yn cael dewis o fwyd ar gyfer pob pryd, a chaiff eu hanghenion deietegol eu diwallu. Dywedodd un person wrthym: *"the food here is good, they check all my meal options with me beforehand because I'm a vegetarian"*. Cynhelir gweithgareddau yn y cartref gan gydlynydd gweithgareddau sy'n gweithio yn y cartref ddeuddydd yr wythnos. Mae llai o bethau i'r bobl ei wneud ar y dyddiau nad yw'r cydgysylltydd gweithgareddau yno.

Mae rhai mesurau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant diogelu angenrheidiol. Ceir polisi diogelu a pholisi chwythu'r chwiban sy'n cynnig arweiniad i'r staff os teimlant fod angen codi mater. Caiff y staff gofal eu recriwtio a'u fetio'n ddiogel cyn iddynt ddechrau yn eu swydd.

Ymddengys bod y rhan fwyaf o'r bobl wedi setlo yn amgylchedd y cartref Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol ar gael ac ystafelloedd unigol y bobl lle y gallant ddewis treulio amser drwy gydol y dydd. Mae cynnydd wedi cael ei wneud mewn diogelwch tân a threfnu eitemau sydd angen eu storio yn y cartref. Fodd bynnag mae angen gwneud gwelliannau pellach i sicrhau nad yw eitemau peryglus o fewn cyrraedd a bod yr ardaloedd cymunedol yn cael eu defnyddio'n briodol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan weithwyr gofal sy'n gyfeillgar ac yn dymuno'r gorau iddynt. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym: *"our residents are our priority"*, *"we have some really good relationships with people here"*. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r gweithwyr gofal i ddarparu'r gofal cywir i'r bobl ar yr amser cywir. Mae'r nodiadau dyddiol a'r trosglwyddiadau yn cynnwys manylion am ddigwyddiadau o ddydd i ddydd gyda'r bobl y dylid eu hymgorffori i'r cynlluniau personol a'r adolygiadau. Caiff yr adolygiadau eu cwblhau'n rheolaidd.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag asiantaethau amlddisgyblaethol i gadw'r bobl mor iach â phosibl ac i sicrhau y gallant ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae anghenion rhai o'r bobl sy'n byw yn Breaksea wedi cynyddu oherwydd dirywiad yn eu hiechyd, a dywedodd y rheolwr ei bod y ei chael yn anodd cael yr ailasesiadau angenrheidiol neu leoliadau amgen wedi eu trefnu ar eu cyfer. Felly, rhoddir mwy o bwysau ar y gweithwyr gofal i barhau i ddiwallu eu hanghenion cynyddol yn ogystal â pharhau i gynnal lefel y cymorth a roddir i'r preswylwyr eraill yn y cartref. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel ac yn briodol a chaiff ei rhoi fel y'i rhagnodir. Mae'r dirprwy reolwr yn goruchwylio archwiliadau meddyginiaeth ac asesiadau cymhwysedd.

Mae prosesau rheoli heintiau ar waith i atal croes-halogi ac i hyrwyddo hylendid da. Gwnaethom arsylwi staff domestig a golchi dillad yn cwblhau dyletswyddau glanhau drwy gydol y dydd. Roedd y cartref yn lân ar y diwrnod y gwnaethom ymweld. Mae polisi rheoli heintiau ar waith er mwyn darparu canllawiau ychwanegol i'r staff pe byddai angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr wedi mynd i'r afael â'r risgiau i'r bobl drwy wella diogelwch tân yn y gwasanaeth. Ar adeg yr arolygiad diwethaf, roedd polyn sgaffald yn atal un o'r drysau tân rhag agor yn llawn a gwnaethom roi gwybod i'r darparwr bod angen rhoi sylw brys i hyn. Yn yr ymweliad hwn, gwelsom fod y polyn sgaffald wedi cael ei dynnu oddi yno. Yn ogystal, roedd camau gweithredu wedi cael eu cymryd mewn ymateb i arolygiad gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a oedd wedi nodi meysydd i fynd i'r afael â nhw. Mae hyn wedi gwella llawer o agweddau ar ddiogelwch tân yn y cartref.

Mae ychydig o gynnydd wedi cael ei wneud i drefnu a storio eitemau yn y gwasanaeth, lleihau peryglon a rhwystrau a gwella'r ymdeimlad cartrefol yn yr amgylchedd. Fodd bynnag, gwelsom ychydig o offer garddio miniog wedi'u gadael rhwng drws mewnol a drws allanol nad oedd dan glo, y gallai'r bobl sy'n gallu symud yn annibynnol eu cyrraedd. Yn yr arolygiad diwethaf, gwelsom yr unigolyn sy'n trin gwallt yn defnyddio'r lolfa gymunedol yn hytrach nag ystafell ar wahân, gyda sgrin fewnol yn cael ei gosod nad oedd yn sefydlog bob amser. Yn ystod yr ymweliad, dywedwyd wrthym fod hyn yn barhaus, ac nid yn unig yn peri risg i'r bobl sy'n cerdded yn ôl ac ymlaen i'r lolfa, ond hefyd yn anoddach golchi gwallt y bobl ac iddynt gael profiad ymlaciol wrth gael gwneud eu gwallt. Felly mae hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella, a chaiff ei ystyried eto yn ein harolygiad nesaf.

Mae yna unigolyn cynnal a chadw sy'n gweithio rhwng Cartref Gofal Breaksea a'i chwaer gartref. Caiff gwaith gwirio a gwasanaethu cyfleusterau a chyfleustodau ei gwblhau fel y bo angen i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas at y diben. Mae yna ystafell fwyta, heulfan a dwy lolfa lle y gall y bobl dreulio amser ynddynt os dymunant. Caiff ystafelloedd gwely eu personoli â ffotograffau ac ornamentau'r bobl. Mae ardal awyr agored y gellir ei defnyddio ac mae'r cartref yn agos iawn at y traeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mwynhau gweithio gyda'r bobl sy'n byw yn Breaksea. Fodd bynnag, maent yn teimlo eu bod dan bwysau oherwydd anghenion cynyddol rhai o'r bobl am fod eu hiechyd wedi dirywio. Gwnaethant ddweud wrthym: *“we’re a good team, everyone gets along”*, *“it’s very busy here, especially in the mornings”*, *“there are a lot of people that need much more of our time now, we get less time to do things with people”*. Dywedodd y rheolwr ei bod mewn cysylltiad cyson â'r gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd i gael ailasesiadau ar gyfer y bobl y gallai fod angen gofal nyrsio arnynt. Mae'r gweithwyr gofal yn ymddiried yn y rheolwr: *“[the manager] is very open, I would go to them with any problems or safeguarding worries”,* “*[the manager] will step in to help if needed”*.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio a'u fetio'n ddiogel cyn dechrau ar eu rolau. Gwnaethom samplu ychydig o ffeiliau personél y staff a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn ogystal â thystiolaeth o wiriadau gwasanaeth datgelu a gwahardd diweddar. Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwelsom fod bron pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol a'r hyfforddiant a oedd wedi'i deilwra'n benodol i anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Dywedodd y rheolwr bod proses ddisgyblu ar waith ar gyfer y staff gofal nad ydynt yn mynychu sesiynau hyfforddi sydd wedi'u trefnu ac nad ydynt yn cwblhau eu hyfforddiant ar-lein. Mae'r rheolwr hefyd yn cadw matrics goruchwylio, i sicrhau bod y staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un lle gallant drafod eu datblygiad proffesiynol.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn diwallu ei gyfrifoldebau sicrwydd ansawdd. Mae'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, gan gofnodi ymweliadau monitro yn ffurfiol bob chwarter. Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn trafod unrhyw faterion â'r Unigolyn Cyfrifol yn ôl yr angen. Mae'r staff gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol ac yn siarad ag ef pan ddaw i mewn. Mae dogfennau ar gael i roi gwybod i'r bobl am y gwasanaeth a'r hyn y gallant ei ddarparu a'r hyn na allant ei ddarparu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 57 | Nid yw'r darparwr yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Crëwyd rhai peryglon amgylcheddol yn sgil storio eitemau yn amhriodol a'r defnydd o ofod cymunedol. | Heb Gyflawni |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/09/2023